# SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif reoliadau").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 25 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy'n caniatáu i atyniadau tanddaearol i ymwelwyr agor (bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy'n dileu'r gofyniad i gau llety gwyliau nad yw'n hunangynhwysol (bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy'n dileu'r gofyniad a osodwyd ar unigolion i weithio gartref pan fo'n rhesymol ymarferol; ac
- sy'n egluro y caniateir i esgus rhesymol dros ymgynnull â phersonau eraill gynnwys cael gafael ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus a gofal plant, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 27 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy'n caniatáu agor amlosgfeydd (yn llawn), sinemâu dan do, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino, sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo, arcedau diddanu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau (bydd yn ofynnol i'r personau sy'n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n teithio ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb (yn ddarostyngedig i rai eithriadau); ac
- sy'n llacio'r cyfyngiad ar gynulliadau i ganiatáu ystod ehangach o weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu a gosod eiddo preswyl, megis gweld eiddo sydd wedi ei feddiannu.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd

wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

1. Mae rheoliad 3(12)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 20(1)(a) o'r prif Reoliadau fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:

> "(a) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 10(4), 11(4) *neu* 12(2) *neu* 12A(1)," *[pwyslais wedi'i ychwanegu]*

Mae'r diwygiad yn creu polysyndeton (ailadroddir y cysylltiad yn ddiangen). Er nad yw hyn yn arwain at ddrafftio diffygiol, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd pe bai strwythurau brawddegau anarferol yn cael eu hosgoi cyn belled ag y bo modd.

2. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro bod hyn oherwydd yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys, i ymdrin â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.